Department for Environment Food & Rural Affairs

Mail point A
Second Floor Seacole
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

Ffôn: 03459 335577
helpline@defra.gov.uk
www.gov.uk/defra

Annwyl Ymgynghorai,

**Ymgynghoriad ynghylch a ddylai Cymru a Lloegr newid eu rheolaethau bwyd anifeiliaid sy'n gysylltiedig ag Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSEau)**

Rwy'n ysgrifennu atoch i ofyn am eich barn ar y newidiadau arfaethedig i'r rheolaethau bwyd anifeiliaid sy'n gysylltiedig â TSE.

Rydym yn gofyn am farn ar gynigion i newid y rheolaethau bwyd anifeiliaid cyfredol i ganiatáu'r canlynol:

- bwydo protein moch wedi'i brosesu i ddofednod
- bwydo protein dofednod wedi'i brosesu i foch
- bwydo protein pryfed wedi'i brosesu i ddofednod a moch
- colagen a gelatin anifeiliaid sy'n cnoi cil mewn bwyd anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil

Mae'r ddogfen ymgynghori gyda rhagor o fanylion am y newidiadau arfaethedig ar gael ar GOV.UK.

Rydym yn croesawu eich barn a'ch sylwadau ar y cynigion. Os hoffech chi gael copi o'r ymgynghoriad hwn, cysylltwch â feedcontrolsconsultation@defra.gov.uk.

**Ymatebion**

I gyflwyno eich ymateb i'r ymgynghoriad, llenwch holiadur yr ymgynghoriad a ddarperir drwy'r Gofod Dinasyddion (adnodd ymgynghori ar-lein ydy'r Gofod Dinasyddion).

Anogir ymateb ar y Gofod Dinasyddion gan ei fod yn hwyluso'r gwaith o ddadansoddi ymatebion. Gallwch hefyd ymateb i'r ymgynghoriad drwy anfon e-bost at feedcontrolsconsultation@defra.gov.uk neu anfon llythyr i'r cyfeiriad uchod.

Dylid ymateb erbyn **01/04/2025.**

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol ag egwyddorion ymgynghori Swyddfa'r Cabinet.

Gofynnir i grwpiau cynrychioladol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli a, lle bo hynny'n berthnasol, gyda phwy arall y maent wedi ymgynghori wrth ddod i'w casgliadau pan fyddant yn ymateb.

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys data personol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth. Rydym yn parchu eich preifatrwydd personol wrth ymateb i geisiadau mynediad at wybodaeth. Dim ond os bydd angen i fodloni gofynion statudol Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 y byddwn yn rhannu gwybodaeth.

**Defnyddio eich gwybodaeth a'i rhannu**

Mae sut rydym yn defnyddio eich data personol wedi'i nodi yn hysbysiad preifatrwydd yr ymgynghoriad sydd ar gael yma Privacy notices - Gov.uk Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu gwynion ynghylch y broses ymgynghori, anfonwch e-bost at: consultation.coordinator@defra.gov.uk

Diolch am eich cymorth yn hyn o beth. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni uchod.

Yn gywir

Tîm TSEau
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Mail point A, Second Floor, Seacole Building, 2 Marsham Street, Llundain, SW1P 4DF